# Tlodi a Bwlio

Tlodi yw bod heb ddigon o arian ar gyfer y pethau rydych chi angen, fel bwyd neu wres

Bwlio yw ymddygiad sy'n brifo rhywun arall, fel galw enwau, gwthio, taro neu ledaenu hanesion amdanyn nhw

## Fe wnaethon ni holi plant a phobl ifanc am gael eu bwlio oherwydd tlodi.

## Dyma beth ddwedson nhw:

### Yn yr ysgol

- Mae tlodi'n golygu eu bod nhw ddim bob amser yn gallu fforddio'r wisg ysgol gywir
- Allan nhw ddim bob amser fforddio mynd ar deithiau ysgol
- Mae llawer o blant yn cael eu bwlio oherwydd hyn
- Mae hynny'n gallu gwneud iddyn nhw deimlo'n drist, yn ynysig ac yn bryderus

### Gartref

- Mae tlodi'n golygu eu bod nhw ddim bob amser yn gallu gwahodd ffrindiau draw
- Allan nhw ddim bob amser fforddio rhannu byrbryd neu roi rhywbeth i'w fwyta i'w ffrindiau
- Gall hynny olygu eu bod nhw'n ofni bydd pobl yn gwneud jôcs amdanyn nhw neu'n eu bwlio
- Mae'n gallu gwneud iddyn nhw deimlo'n bryderus ac yn ofnadwy

### Allan ac o Gwmpas



- Mae tlodi'n golygu eu bod nhw ddim bob amser yn gallu fforddio mynd allan gyda'u ffrindiau
- Mae llawer o blant mewn tlodi yn gallu teimlo'n unig oherwydd eu bod yn methu mynd allan na fforddio cwrdd â'u ffrindiau
- Mae llawer o blant yn cael eu bwlio oherwydd hyn
- Mae'n gallu gwneud iddyn nhw deimlo'n wahanol ac wedi ypsetio

# Tlodi a Bwlio


*"Ddylech chi ddim teimlo cywilydd am dlodi, oherwydd mae llawer o bobl yn mynd i dlodi heb fod bai arnyn nhw o gwbl" (14-16 oed)*

## Fe ofynnon ni i blant a phobl ifanc beth ddylai newid

### Dyma beth ddwedson nhw:

- Hybu tosturi a dealltwriaeth
- Gwirio bod pobl ifanc bob amser yn iawn
- Rhoi'r gefnogaeth a'r cwnsela cywir iddyn nhw
- Addysgu plant mewn ysgolion am effaith tlodi
- Byddai deall yr effaith yn golygu bod ganddyn nhw feddwl mwy agored
- Gwneud pobl yn ymwybodol sut mae'n teimlo
- Dylai gwisg ysgol gael ei darparu ar gyfer plant sydd mewn tlodi
- Darparu talebau sgidiau, fel bod neb yn wahanol
- Helpu i ddarparu arian ar gyfer tripiau ysgol
- Dylai fod prosiectau sy'n ariannu tripiau ysgol am ddim
- Creu cynlluniau gwersi a sesiwn ar ddeall tlodi





### DIOLCH anferth i bawb fu'n rhan o'r arolwg